

Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Busnes a gynhaliwyd ar nos Iau, Hydref 5ed, 2017 yn Neuadd Llanystumdwy.

Yn bresennol: Y Cyngorwyr Aled Lloyd Evans; Marian Evans; Tegid Jones; Sion Aled Jones; Aled Davies; Anwen Jones a'r Clerc.

1. Etholwyd y Cyngorydd Aled Lloyd Evans yn Gadeirydd i'r Pwyllgor.
2. Ymddiheuriadau. Roedd pawb yn bresennol.
3. Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Busnes gynhaliwyd ar Ionawr 19eg, 2017.
4. Cyllideb 2017/18 a throsolwg o wariant y Cyngor hyd yma. Cafwyd adroddiad fanwl o'r union wariant hyd yma (roedd taflenni wedi cael eu rhannu) a chymharwyd gyda'r gyllideb bennwyd.

Un gwahaniaeth oedd bod y Cyngor, ar anogaeth y Cyngor Sir, wedi cyllidebu ar gyfer talu costau etholiad ar gyfer seddau ar y cyngor cymuned yma ym mis Mai 2017; ni fu etholiad ac er bod costau, roeddent yn sylweddol is na phetai etholiad wedi'i chynnal. Golyga hynny bod chwaneg o arian yn y coffrau.

Yn ogystal rhoddwyd amlinelliad o'r gwariant sydd i ddod dros y misoedd nesaf.

5. Cynlluniau gwariant o rwan hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Trafodwyd y prosiectau posib yma:

a. Cyngor Gwynedd, Toiledau Llanystumdwy. Mae £2,000- wedi cael ei ymrwymo i'r cynllun yma.

b. Offer Cae Chwarae Llanybi. Cafwyd pris o £1,725.60c am wneud y gwaith sydd angen ei wneud. Penderfynwyd argymell cario ymlaen gyda'r gwaith yma.

c. Clirio tir y Cyngor ym Maenywern. Penderfynwyd argymell i'r gwaith yma gael ei wneud; nid yw wedi cael ei brisio.

ch. Wi Fi i'r neuaddau Llanystumdwy/Chwilog/Festri Pencaenewydd. Penderfynwyd argymell talu am y gwaith yma os yw pwyllgorau'r neuaddau/capel am ei gael.

d. Llwybr Pont Merchaid i Ffynnon Gybi. Roedd Cyngor Gwynedd am wneud y gwaith yma, mae heb ei wneud ac argymhelliad y Pwyllgor yw trefnu i'r gwaith gael ei wneud a thalu amdano.

dd. Tocio caled ar y llwybrau. Mae angen gwneud hyn o bryd i'w gilydd a'r argymhelliad ydi trefnu a thalu am wneud y gwaith.

e. Bocsys Halen. Eto mae'r Cyngor yma wedi ymrwymo i dalu am lenwi rhain pan maent yn wag.

f. Ym mhentref Llanystumdwy gofyn am symud yr arosfan bws am Bwllheli i'r gilfan ac ystyried talu am loches bws.

ff. Argymell tacluso a glanhau'r cerrig milltir yn y gymuned; bydd angen cymorth i wybod eu hunion leoliad.

g. Argymell ystyried cael arwyddion croeso i'r pentrefi ar y ffiniau, Chwilog yn enwedig. Caiff y Cyngorydd Aled Davies esbonio ymhellach.

h. Argymell cael arwydd i ddynodi lleoliad cromlech Rhoslan.

6. Arian Cyfraniad Budd Cymunedol, fferm solar Tyddyn Gwyn, Llanybi.

Penderfynwyd argymell rhannu'r arian rhwng mudiadau lleol, rhoi gwybod am yr arian yn Y Ffynnon ac ar safle we'r Cyngor, cael mantolen a gwybod beth fyddai'r mudiadau lleol yn wneud gyda'r arian.

O bosib byddai hyn yn rhyddhau mwy o arian i gael ei wario ar brosiectau yn y gymuned.

Trafodwyd yr egwyddor o sicrhau tegwch i'r gwahanol wardiau wrth rannu'r arian.

It is possible to get an English translation of any minute; contact the Clerk.

